



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Cyfeirnod: PHW75

Rhif y Fersiwn: 2

Dyddiad yr Adolygiad nesaf: Ionawr
2029

POLISI AR Y DEFNYDD O'R GYMRAEG O FEWN IECHYD CYHOEDDUS CYMRU

Datganiad Polisi

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ymrwymo i greu diwylliant bywiog, cynhwysol ac iach lle mae ein holl bobl yn cael eu cefnogi i ffynnu.

Fel sefydliad, rydym wedi ymrwymo i greu a meithrin amgylchedd gwaith cadarnhaol, hyblyg a chynaliadwy. Ein dyhead yw bod yn sefydliad rhagorol o ran llesiant, lle mae ein staff yn cael eu cefnogi i sicrhau bod eu profiad o weithio yn eu galluogi i fod yn iachach ac yn hapusach yn y gwaith, ac i allu gwneud eu gorau glas.

Lluniwyd ein fframwaith ymddygiad sefydliad, Bod Ar Ein Gorau, i wireddu ein gwerthoedd. Mae'n disgrifio sut y dylai gweithio gyda'n gilydd i wneud gwahaniaeth fod yn rhan o'n profiadau bob dydd, a hynny gydag ymddiriedaeth a pharch.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn falch iawn o'n statws fel sefydliad cenedlaethol, ac o'n hunaniaeth fel sefydliad unigryw yng Nghymru. Mae'r Gymraeg yn rhan gynhenid o'r hunaniaeth genedlaethol honno, ac mae iddi bwysigrwydd nid yn unig i'r gwasanaethau a ddarparwn i'r cyhoedd yng Nghymru ond hefyd i'r staff o fewn ein sefydliad.

Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 yn glir ynghylch y gofynion statudol sy'n berthnasol i'n gwasanaethau a'n gweinyddiaeth; mae'r polisi hwn yn bodloni gofynion Safon 79 sef "Rhaid ichi ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol er mwyn hybu a hwyluso defnyddio'r iaith". Fodd bynnag, nid yw cynnwys y polisi hwn yn ymwneud â sut yr ydym yn bodloni'r Safonau; mae'n ymwneud â sut yr ydym yn mynd ati i greu newid diwylliannol o fewn ein sefydliad sy'n normaleiddio defnyddio'r Gymraeg ac yn sicrhau ein bod yn meithrin ethos dwyieithog. Po fwyaf y gallwn ddatblygu ein diwylliant dwyieithog, bydd cydymffurfio â'r Safonau yn brofiad haws a mwy naturiol.

Mae'r polisi hwn yn dangos sut y byddwn yn gweithio i gael gwared ar unrhyw rwystrau sydd yn atal siaradwyr Cymraeg rhag defnyddio'r iaith gyda'i gilydd ar hyn o bryd. Byddwn yn creu amgylchedd dysgu cefnogol i'r rhai sy'n ceisio caffael a gwella eu sgiliau Cymraeg, a byddwn yn galluogi'r rhai di-Gymraeg ymhlith ein staff i ddatblygu a dangos parch at yr iaith a'i chefnogi.

Polisiâu, Gweithdrefnau a Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig Cysylltiedig

- [Rheoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 7\) 2018](#)
- [Hysbysiad Cydymffurfio Iechyd Cyhoeddus Cymru](#)
- Polisi Fy Nghyfraniad
- [Cynllun Ymgynghoriadau Clinigol yn Gymraeg](#)
- Polisi Recriwtio a Dethol
- Polisi Hyfforddiant Statudol a Gorfodol
- Polisi Cefnogi Dysgu a Datblygu
- Polisi Rheoli Polisiâu, Gweithdrefnau a Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig Eraill
- [Bod Ar Ein Gorau](#) (Fframwaith Ymddygiad)
- Polisi Amser i Ffwrdd yn Lle Tâl
- [Mewnwyd Iechyd Cyhoeddus Cymru: Hwb yr Iaith Gymraeg](#)

[Mae'r holl bolisiâu a gweithdrefnau corfforaethol ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru](#)

Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i hybu a hwyluso'r Gymraeg yng nghyd-destun busnes mewnol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Safon 79). Nid yw'n trafod yr elfennau hynny sy'n ofynion cyfreithiol o dan Safonau'r Gymraeg (ceir rhestr ohonynt yn Atodiad 1), ac eithrio lle mae elfennau'n gorgyffwrdd a synergeddau.

Mae Safonau eraill, na chyfeirir atynt yma, yn berthnasol mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg wrth i ni ymwneud â phobl a sefydliadau allanol.

Oni nodir yn wahanol, mae "ni" yn y polisi hwn yn cyfeirio at Iechyd Cyhoeddus Cymru fel sefydliad.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd	Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, y Gymraeg ac Iechyd wedi'i gwblhau a gellir ei weld ar y tudalennau gwe ar gyfer polisi.
Cymeradwywyd gan	Y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol
Dyddiad Cymeradwyo	20/01/2026
Dyddiad Adolygu	20/01/2029
Dyddiad Cyhoeddi:	10/03/2026
Y Cyfarwyddwr Gweithredol/Cyfarwyddwr Atebol	Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol
Awdur	Arweinydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Ymwadiad

Os yw dyddiad adolygu'r ddogfen hon wedi mynd heibio, sicrhewch eich bod yn defnyddio'r fersiwn fwyaf cyfredol, naill ai drwy gysylltu ag awdur y ddogfen neu ag [Uned Fusnes y Bwrdd](#)

Crynodeb o adolygiadau/diwygiadau

Rhif y fersiwn	Dyddiad yr Adolygiad	Dyddiad Cymeradwyo	Dyddiad cyhoeddi	Crynodeb o'r Diwygiadau
1	Awst - Rhagfyr 2022	15/03/23	30/03/23	Polisi newydd
2	Awst - Rhagfyr 2025	20/01/26	10/03/26	Adolygu polisi

Tabl Cynnwys

1. Cyflwyniad ac Egwyddorion
2. Rolau a Chyfrifoldebau
 - 2.1 Gweledigaeth a Datganiad o Ddiben
3. Arweinyddiaeth
4. Dysgu
5. Cyrsiau Cymraeg
 - 5.1 Arlwy Cyfleoedd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru
 - 5.2 Dysgu Cymraeg – Cynllun Gweithredu Dysgu Cymraeg
6. Dysgu Trwy Gyfrwng y Gymraeg
7. Cefnogi Ein Dysgwyr
 - 7.1 Mentrau Cefnogi
8. Adnoddau
9. Cyfieithu
10. Diwylliant Cymraeg
 - 10.1 Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg
 - 10.2 Hyrwyddo a Digwyddiadau
 - 10.3 *Ymlaen* – Rhwydwaith Staff Cymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru
 - 10.4 Cwrteisi Iaith
11. Cyfathrebu ac Ymwybyddiaeth Mewnol
12. Monitro ac Adolygu
13. Adborth, Cymorth a Chodi Ymwybyddiaeth
14. Cynllun Gweithredu
 - Atodiad 1: Safonau'r Gymraeg sy'n Berthnasol i Ddefnyddio'r Gymraeg yn Fewnol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru

1. Cyflwyniad ac egwyddorion

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ymrwymo i greu diwylliant bywiog, cynhwysol ac iach lle mae ein holl bobl yn cael eu cefnogi i ffynnu.

Fel sefydliad, rydym wedi ymrwymo i greu a meithrin amgylchedd gwaith cadarnhaol, hyblyg a chynaliadwy. Ein dyhead yw bod yn sefydliad rhagorol o ran llesiant, lle mae ein staff yn cael eu cefnogi i sicrhau bod eu profiad o weithio yn eu galluogi i fod yn iachach ac yn hapusach yn y gwaith, ac i allu gwneud eu gorau glas.

Mae'r polisi hwn yn disgrifio'r camau y bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn eu cymryd i feithrin ethos dwyieithog yn y sefydliad. Mae'n gwneud hynny i sicrhau bod staff yn teimlo'n gyfforddus wrth ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg yn ystod eu diwrnod gwaith, ac yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i wneud hynny, yn ogystal â chefnogi staff i ddatblygu a gwella'r sgiliau hynny, ar ba bynnag lefel. Yr hyn sydd wrth wraidd hyn yw sut y gall ein defnydd o'r Gymraeg gyfrannu at werthoedd ein sefydliad o "Gweithio gyda'n gilydd, gydag ymddiriedaeth a pharch, i wneud gwahaniaeth".

Mae'r camau gweithredu yn y polisi hwn yn ychwanegol at y gofynion statudol ar Iechyd Cyhoeddus Cymru fel cyflogwr o dan Safonau'r Gymraeg, sydd wedi'u heitemeiddio er gwybodaeth yn Atodiad 1.

Nid yw'r Gymraeg yn berthnasol i ofynion Safonau'r Gymraeg yn unig. Mae cynlluniau a mentrau perthnasol eraill yn cynnwys:

- **[Strategaeth Pobl Iechyd Cyhoeddus Cymru 2020–30](#)**: Mae'r strategaeth hon yn nodi pwysigrwydd a her sicrhau bod gennym niferoedd digonol o siaradwyr Cymraeg yn ein gweithlu, yn enwedig yn ein rolau rheng flaen, a phwysigrwydd hyfforddi'r gweithlu presennol a bod yn gyflogwr deniadol i siaradwyr Cymraeg nad ydynt wedi'u recriwtio hyd yn hyn.
- **[Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#)**: Disgwylir i Iechyd Cyhoeddus Cymru gyfrannu at nodau'r Ddeddf hon, ac un ohonynt yw "Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu".
- **[Mwy Na Geiriau, Cynllun Pum Mlynedd 2022–27](#)**: Mae cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gofyn i bob darparwr gwasanaeth allu gwneud "Cynnig Rhagweithiol" o wasanaeth Cymraeg.
- **[Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg](#)**: Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'r rhai sy'n defnyddio'r iaith yn rheolaidd. Mae hyn yn cynnwys pwyslais arbennig ar y gweithle, ac yn nodi "bod mwy o siaradwyr yn defnyddio'r Gymraeg gyda'u cydweithwyr os yw eu cyflogwr yn

cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y rhan fwyaf o'r agweddau ar waith y busnes".

Mae canllawiau ac adnoddau a ddarparwyd i ni gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wedi'u defnyddio i ddrafftio'r polisi hwn.

Yn ogystal â hyn, mae rhagor o waith wedi'i gynnal yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan gynnwys y fframwaith ymddygiad Bod Ar ein Gorau a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, sy'n gorgyffwrdd â'r dyheadau diwylliannol a fynegir yma.

Er bod y polisi hwn yn canolbwyntio ar y camau cadarnhaol y gall y sefydliad eu cymryd i ddatblygu ein defnydd o'r Gymraeg, dylid nodi bod Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn ymgorffori'r hawl i bobl ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd, a gellir adrodd am unrhyw ymgais i wadu'r hawl honno i Gomisiynydd y Gymraeg, a all ymchwilio iddo.

2. Rolau a chyfrifoldebau

Mae gan bob uwch arweinydd gyfrifoldeb i arwain trwy esiampl, ac i annog a meithrin ethos dwyieithog o fewn y sefydliad.

Mae'r Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol yn gyfrifol am sicrhau bod anghenion y Gymraeg yn cael eu gwreiddio yn ffrydiau gwaith y Gyfarwyddiaeth honno fel y gall staff gyrchu'r cyngor, yr arweiniad a'r cymorth sydd eu hangen arnynt yn hawdd mewn perthynas â defnyddio a datblygu eu Cymraeg. Mae pob polisi, gweithdrefn a ffurflen ar gael yn y Gymraeg ac anogir aelodau staff i ymateb yn Gymraeg/defnyddio'r Gymraeg ym mhob gweithdrefn ffurfiol AD.

Mae arweinwyr yn y sefydliad a rheolwyr pobl yn gyfrifol am sicrhau bod strwythurau a phrosesau eu Cyfarwyddiaethau yn croesawu ffyrdd newydd o weithio sy'n hwyluso'r Gymraeg ac yn ei normaleiddio, yn rhoi arweinyddiaeth mewn perthynas â'r iaith ac yn hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg.

[Mae Grŵp y Gymraeg](#) yn fforwm chwarterol gyda chynrychiolaeth gan uwch reolwyr o bob cyfarwyddiaeth. Ei ddiben yw rhannu arferion gorau, a chefnogi a hwyluso datrysiadau ym mhob rhan o'r sefydliad i heriau cyffredin. Mae'r fforwm yn chwarae rhan allweddol wrth helpu'r sefydliad i hyrwyddo'r iaith, ac i rannu negeseuon allweddol gyda'u hadrannau. Mae aelodau Grŵp y Gymraeg yn hyrwyddwyr dros y Gymraeg yn eu timau a'u cyfarwyddiaethau lleol ac maent yn gweithio'n agos gyda Thîm y Gymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae gan 'Ymlaen' sef Rhwydwaith Cymraeg y Staff sydd ar agor i bob aelod o staff gyfrifoldeb hefyd am godi ymwybyddiaeth o'r polisi hwn ac i annog eraill i groesawu ei ethos.

Mae Tîm y Gymraeg yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o gefnogi ymrwymiad y sefydliad i ethos dwyieithog. Drwy gydweithio ar draws cyfarwyddiaethau, mae'r tîm yn darparu cyngor arbenigol, canllawiau ymarferol ac adnoddau wedi'u teilwra i helpu staff i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg yn hyderus. Maent yn sicrhau bod ystyriaethau'r Gymraeg wedi'u gwreiddio ym mhrosesau'r sefydliad, ei gyfathrebiadau a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu, ac yn hyrwyddo cyfleoedd yn weithredol i staff ymwneud â'r Gymraeg yn eu gwaith bob dydd.

Mae'r tîm hefyd yn cefnogi'r gwaith o roi Safonau'r Gymraeg ar waith, yn monitro cynnydd, ac yn gweithio'n agos gyda Grŵp y Gymraeg ac Ymlaen i hyrwyddo arferion gorau, rhannu llwyddiannau, a meithrin diwylliant lle mae'r Gymraeg yn cael ei gweld, yn cael ei gwerthfawrogi a'i dathlu ledled y sefydliad. Mae staff yn cael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb personol am ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg.

2.1 Gweledigaeth a datganiad o ddiben

Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cefnogi ein holl aelodau staff Cymraeg i ddefnyddio eu Cymraeg yn y gwaith pan fo modd. Byddwn yn annog ein dysgwyr i ddatblygu ac ymarfer eu Cymraeg drwy roi cyfleoedd ac amser iddynt wneud hynny.

Yn unol â'r targed a nodir yn y cynllun Mwy na Geiriau, byddwn yn sicrhau bod cynifer â phosibl o'n staff sydd â sgiliau Cymraeg lefel 0 ar hyn o bryd yn symud ymlaen i lefel cwrtseisi yn ystod y 5 mlynedd nesaf.

Yn anad dim, bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn hyrwyddo ac yn datblygu agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg ac yn annog ein staff ar bob lefel i fod yn falch o'n hiaith a'n diwylliant yng Nghymru drwy sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gweld fel sgil hanfodol yn y sefydliad.

3. Arweinyddiaeth

Mae gan bob arweinydd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, o'r Prif Weithredwr a Chadeirydd y Bwrdd a thrwy'r sefydliad cyfan, gyfrifoldeb i fod yn enghraifft o arferion da a dangos parch at y Gymraeg. Y peth mwyaf sylfaenol y gall arweinwyr ei wneud yw ymgorffori "cwrteisi ieithyddol" yn eu hymarfer drwy gyfarch yn y Gymraeg (e.e. *bore da*, *prynhawn da*) a defnyddio'r Gymraeg o bryd i'w gilydd mewn sefyllfaoedd eraill (e.e. *diolch*, *da iawn*). Mae'r cynllun *Mwy Na Geiriau* yn cynnwys cam gweithredu i holl uwch arweinwyr y GIG yng Nghymru sef cymryd rhan mewn rhaglen "Arwain mewn Gwlad Ddwyeithog" erbyn 2027, a fydd yn cefnogi'r ymarfer hwn.

Mae'n bwysig bod holl sbectrwm caffael iaith yn weladwy, fel bod y rhai sydd ond yn siarad rhywfaint o Gymraeg neu sy'n llai hyderus yn chwarae

rhan hanfodol wrth newid canfyddiadau cyffredinol tuag at yr iaith. Gall y rhai sydd â rhywfaint o Gymraeg, neu sy'n dysgu ar hyn o bryd, annog eraill trwy fod yn rhagweithiol wrth ddefnyddio'r hyn y maent wedi'i gaffael hyd yn hyn. Waeth beth yw rôl cydweithiwr, dylai'r rhai sy'n dewis rhannu eu hiaith yn eu timau ac sy'n annog eraill (e.e. trwy rannu "gair y dydd" neu rywbeth debyg) gael eu hannog a'u cefnogi i wneud hynny. Yn y modd hwn, mae ein holl staff, ym mha bynnag fand cyflog, yn cael y cyfle i ddangos arweinyddiaeth.

Gall y rhai sy'n siaradwyr Cymraeg mwy hyderus gefnogi eu cydweithwyr drwy ddefnyddio'r iaith mewn cynifer o sefyllfaoedd â phosibl, a defnyddio'r bathodyn oren "Iaith Gwaith" i ddangos eu bod yn siarad/yn dysgu Cymraeg. Anogir y siaradwyr Cymraeg hyn i fod yn amyneddgar a helpu'r rhai sy'n dysgu neu sy'n llai hyderus yn yr iaith; mae awgrymiadau ar sut i gefnogi pobl eraill ar gael ar fewnrwyd Hwb.

Fel sefydliad, byddwn yn annog ein harweinwyr i wneud y pethau canlynol:

- defnyddio eu Cymraeg i agor a chloi cyfarfodydd, anfon negeseuon a thraddodi cyflwyniadau yn y Gymraeg gymaint â phosibl a darparu hyfforddiant i'n harweinwyr a'n rheolwyr ar sut i ddefnyddio eu Cymraeg yn effeithiol.
- cynnwys y Gymraeg fel eitem barhaus ar agendâu ar gyfer cyfarfodydd, er enghraifft cyfarfodydd uwch reolwyr neu gyfarfodydd y bwrdd fel bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn llawn ym mhob trafodaeth.
- Sicrhau bod ein Hyrwyddwyr y Gymraeg, a chynrychiolwyr ein Grŵp y Gymraeg, yn defnyddio eu safle o fewn y sefydliad i feithrin agwedd gadarnhaol tuag at y Gymraeg ymysg eu timau a'u cyfarwyddiaethau

Mae disgwyl i arweinwyr osod esiampl o ymddygiad cynhwysol drwy greu amgylcheddau sy'n teimlo'n ddiogel yn seicolegol, lle mae staff yn teimlo'n hyderus yn defnyddio'r Gymraeg, waeth beth fo'u gallu presennol.

4. Dysgu

Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru gyfrifoldeb o dan Safonau'r Gymraeg i ddarparu cyfleoedd i'n staff ddysgu Cymraeg, ac i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg (gweler Safonau 97–101 yn Atodiad 1). Nid trwy ddosbarth neu gwrs yn unig y caffaelir iaith; mae defnyddio ac ymarfer yr iaith yn rheolaidd yn angenrheidiol i ymgorffori'r hyn a ddysgir a chynyddu hyder. Felly, mae angen inni sicrhau bod cyfleoedd i bawb ddefnyddio'r Gymraeg sydd ganddynt, beth bynnag fo'r lefel honno.

5. Cyrsiau Cymraeg

Mae ystod eang o gyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg ar gael i gefnogi staff i ddatblygu eu Cymraeg, waeth pa lefel y maent yn dechrau arni. Mae'r rhain yn cynnwys modiwlau rhagarweiniol Cymraeg Gwaith ar-lein, cyrsiau dosbarth rhithwir sy'n cael eu darparu gan Dysgu Cymraeg ar gyfer pob lefel, a chysiau hunan-astudio llawn ar-lein ar lefelau Mynediad a Sylfaen, gyda chwrs Canolradd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

I'r rhai sydd ar lefel Canolradd a thu hwnt, mae cyrsiau dwys wythnos o hyd ar gael trwy Cymraeg Gwaith, sy'n cael eu cynnig fel cyrsiau rhithwir neu brofiad preswyl. Mae'r rhain yn cynnwys cyrsiau "Gloywi" ar gyfer magu hyder mewn Cymraeg llafar a gwella sgiliau ysgrifennu ffurfiol.

Rydym yn annog staff yn weithredol i ddysgu'r Gymraeg yn ystod oriau gwaith pan fo modd gwneud hynny. Pan mai dosbarthiadau nos yw'r unig opsiwn sydd ar gael ar adeg benodol, gall trefniadau lleol amser i ffwrdd yn lle tâl (TOIL) fod yn berthnasol. Hoffem i reolwyr drin hyfforddiant y Gymraeg fel unrhyw gyfle datblygu proffesiynol arall, yn hytrach na throi'n awtomatig at ddatrysiadau sy'n dibynnu ar amser i ffwrdd.

5.1 Cyfleoedd Llywodraeth Cymru i'r Sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Ar y cyd â Llywodraeth Cymru a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, gall staff gyrchu sesiynau dan arweiniad tiwtor sy'n cael eu cynnig gan ddarparwr Dysgu Cymraeg, gan gynnwys sesiynau 'Croeso' lefel dechreuwyr a modiwlau 'Blasu' i ddilyn. Mae sesiynau magu hyder hefyd ar gael, sy'n cynnig man cefnogol i ddysgwyr ymarfer a chryfhau eu sgiliau Cymraeg. Mae'r sesiynau hyn cael eu darparu'n benodol i weithlu'r sector Iechyd a Gofal yng Nghymru.

5.2 Cynllun Gweithredu Dysgu Cymraeg

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd defnyddio'r sesiynau a'r cyrsiau uchod er ein budd wrth gynyddu ein gallu Cymraeg yn fewnol. Felly, mae ein huchelgeisiau mesuradwy i gryfhau'r Gymraeg ymhellach yn y sefydliad wedi'u hamlinellu yn ein [Hadroddiad Safonau'r Gymraeg](#) blynyddol.

Mae gennym hefyd dargedau yn ein [Cynllun Ymgynghoriadau Clinigol](#). Er bod y cynllun yn canolbwyntio'n bennaf ar wella ein gwasanaethau allanol, mae nifer o dargedau meithrin gallu mewnol i gefnogi'r gwaith o hwyluso amcanion ein Cynllun Ymgynghoriadau Clinigol.

Mae sawl haen i'r cyfrifoldeb am gyrraedd y targedau sydd wedi'u hamlinellu, gyda phwyslais ar Dîm y Gymraeg i deilwra a hyrwyddo'r cyfleoedd yn eang, ond hefyd ar aelodau Grŵp y Gymraeg a rheolwyr llinell i atgyfnerthu negeseuon i'w staff.

Rydym yn elwa ar gymhorthdal gan Lywodraeth Cymru i dalu am y cyrsiau hyn, fel bod llawer ohonynt yn rhad ac am ddim i ni gael mynediad atynt; ; mae rhywfaint o arian ychwanegol yn cael ei gyrchu i ariannu'r gweddill.

Mae manylion llawn y cyrsiau hyn a sut i gofrestru ar gyfer un ar gael ar y [dudalen Dysgu Cymraeg](#) ar fewnwyd Hwb. Mae staff hefyd wedi cael canllaw sgiliau i hunanasesu lefel eu sgiliau Cymraeg.

Byddwn yn parhau i groesawu ffyrdd newydd o ddysgu a byddwn yn galluogi ein staff i gyrchu cyfleoedd lle bynnag y gallwn.

6. Dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg

Mae'r holl hyfforddiant statudol a gorfodol sy'n cael ei ddarparu drwy'r system Cofnod Staff Electronig (ESR) bellach ar gael yn y Gymraeg, sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i greu amgylchedd gwaith sydd wirioneddol yn ddwyieithog. Dyma welliant sylweddol o ganlyniad i bryderon blaenorol a gafodd eu codi yn y sefydliad ynghylch diffyg opsiynau Cymraeg ar gyfer hyfforddiant angenrheidiol.

Gall staff bellach gwblhau eu dysgu craidd yn yr iaith o'u dewis, gan gefnogi hawliau iaith a hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau proffesiynol. Mae'r datblygiad hwn yn helpu i normaleiddio defnyddio'r Gymraeg ym mhob rhan o'r sefydliad ac yn sicrhau bod dwyieithrwydd wedi'i wreiddio nid yn unig yn ein cyfathrebu, ond hefyd yn ein harferion dysgu a datblygu.

Byddwn yn parhau i wrando ar anghenion ein staff o ran cyrchu cyfleoedd dysgu ar faterion eraill drwy gyfrwng y Gymraeg (gweler Safonau 97 a 98 yn Atodiad 1), a phan fo'n ymarferol byddwn yn hwyluso hynny. Rydym hefyd yn darparu deunyddiau i gefnogi hyn ar ein mewnwyd Hwb (e.e. canllawiau ar ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod cyfarfodydd Bwrdd).

7. Cefnogi ein dysgwyr

Rydym yn ystyried y Gymraeg yn fater cynhwysiant; rydym am i'n staff deimlo'n gyfforddus a'u bod yn cael eu cefnogi i siarad Cymraeg gyda chydweithwyr a chysylltiadau proffesiynol eraill, yn ogystal ag ar lefel gymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys creu mannau sy'n teimlo'n ddiogel yn seicolegol lle mae dysgwyr yn teimlo'n hyderus i ymarfer heb fod yn ofn cael eu barnu, a lle mae camgymeriadau'n cael eu gweld fel rhan o'r daith ddysgu.

Rydym wedi sefydlu 'Ymlaen' sef ein Rhwydwaith y Gymraeg i alluogi ein cydweithwyr Cymraeg i gael fforwm cyfrwng y Gymraeg. Mae croeso i bob aelod o staff yn y rhwydwaith, waeth beth fo'u gallu o ran y Gymraeg. Nod

y rhwydwaith yw darparu ymdeimlad o gymuned, gosod esiampl o arfer da mewn Cymraeg proffesiynol, galluogi cydweithwyr Cymraeg eu hiaith i sicrhau bod eu sgiliau Cymraeg yn y gwaith yn gyfredol a rhannu gwybodaeth a phrofiad, a galluogi'r rhai sy'n llai hyderus i ddefnyddio eu sgiliau datblygol mewn amgylchedd cefnogol.

O ran yr elfen fwy cymdeithasol, rydym yn annog ein dysgwyr i ymwneud â phopeth Cymraeg gymaint ag y bo modd. Mae rhai o'r pethau hyn, ymhlith pethau eraill, yn cynnwys mynd i Eisteddfodau, Tafwyl a digwyddiadau Cymraeg ad hoc.

Yn y sefydliad, ar y lleiaf, mae gan yr holl staff yn Iechyd Cyhoeddus Cymru hawliau penodol i ddefnyddio'r Gymraeg sydd wedi'u hymgorffori yn Safonau'r Gymraeg (gweler Atodiad 1). Rydym yn annog cydweithwyr i ddod yn ymwybodol o'r hawliau hynny a theimlo'n hyderus wrth eu harfer.

Byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr mewn labordai a chanolfannau sgrinio efallai nad oes ganddynt fynediad at liniaduron a'r fewnwyd o ddydd i ddydd, i sicrhau bod gweithgareddau'r Gymraeg, gan gynnwys digwyddiadau dysgu Cymraeg ac Ymlaen, yn hygyrch iddynt.

Cefnogi ein siaradwyr a dysgwyr Cymraeg a rhoi cyfleoedd iddynt:

Fel sefydliad, byddwn yn cefnogi ein cyfleoedd i ddysgu Cymraeg drwy'r canlynol:

- Gofyn i'n staff pa gyfleoedd sydd ganddynt i ddefnyddio eu Cymraeg yn y gwaith a sut y gallwn ni wella'r cyfleoedd hyn iddynt
- Annog siaradwyr Cymraeg i wella eu sgiliau ysgrifennu yn y Gymraeg drwy ddrafftio yn y Gymraeg a defnyddio'r cymorth sydd ar gael drwy Dîm y Gymraeg i roi adborth
- Sicrhau bod pob dysgwr a siaradwr Cymraeg yn gallu cyrchu bathodynau, laniardiau, gwisgoed a chefnidir Teams Cymraeg Gwaith fel bod pobl eraill yn gweld eu sgiliau Cymraeg. Bydd hyn yn rhoi cyfleoedd i ddefnyddio ac ymarfer y Gymraeg
- Parhau i hyrwyddo ein cynlluniau cyfeillio a mentora yn ogystal â chyfleoedd i ddod at ein gilydd i ddefnyddio'r Gymraeg

8. Adnoddau

Mae pecyn Cymraeg Microsoft wedi'i osod fel gofyniad sylfaenol ar bob cyfrifiadur a gliniadur sy'n eiddo i Iechyd Cyhoeddus Cymru. Felly mae pob aelod o staff yn gallu defnyddio offer sylfaenol ar gyfer gwirio'r Gymraeg ar

raglenni Office 365. Mae cyfarwyddiadau ar sut i gyrchu a galluogi'r offer hyn ar gael ar fewnrwyd Hwb.

Mae'r safon aur ar gyfer cymorth gwirio sillafu a gramadeg Cymraeg yn parhau i fod y pecyn Cysgliad o Ganolfan Bedwyr ym Mhrifysgol Bangor. Mae wedi'i drwyddedu i'w ddefnyddio ar draws y GIG yng Nghymru, ac rydym yn argymhell bod hwn yn cael ei osod ar systemau pawb a fydd yn ysgrifennu drafftiau yn Gymraeg (beth bynnag fo safon eu Cymraeg a adroddir). Mae'r Gweithdrefnau Gweithredu Safonol ar gyfer gosod hwn ar gael ar [fewnrwyd Hwb](#), ac nid ydym yn rhagweld unrhyw adegau pan fydd angen i TG wrthod cais i'w osod.

Mae Teams yn cynnig cyfieithu testun sy'n cael ei roi yn ei swyddogaeth sgwrsio yn awtomatig. Mae cyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio'r swyddogaeth hon i alluogi staff i wneud sylwadau yn y Gymraeg gyda chydweithwyr nad ydynt yn siarad yr iaith ar gael ar y fewnrwyd Hwb. Mae gan blatfform Teams hefyd y cyfleuster i ddod â chyfieithydd ar y pryd i mewn ar alwad, fel y gellir cynnal cyfarfodydd yn Gymraeg a bod y rhai nad ydynt yn siarad yr iaith yn dal i allu cymryd rhan.

Nid ydym yn annog pobl i ddefnyddio cyfieithu peirianyddol (fel Google Translate) i gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg, gan nad yw'r ansawdd yn ddibynadwy. Ar gyfer defnydd mewnol, yr hyn sy'n bwysig yw bod gan staff yr hyder i ddefnyddio eu Cymraeg, beth bynnag fo'r lefel, yn naturiol fel rhan o'u gweithgareddau o ddydd i ddydd a/neu ddangos parch at yr iaith. Y ffordd orau o gyflawni hynny yw trwy ysgrifennu yn y Gymraeg a defnyddio'r Gymraeg yn hytrach na thrwy gyfieithu.

Mae nifer o eiriaduron, corpysau ac adnoddau Cymraeg rhagorol ar gael ar-lein, ac mae manylion y rhain i'w gweld yn adran [Adnoddau](#) yr Hwb Cymraeg ar y fewnrwyd. Mae'r adnoddau "Iaith Gwaith" (Ianiardiaau a bathodynau – gweler Safon 105 yn Atodiad 1) yn parhau i fod ar gael am ddim i staff sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg drwy Dîm y Gymraeg: Cymraeg.ICC@wales.nhs.uk Mae fersiynau electronig o'r bathodyn ar gael ar fewnrwyd Hwb, ac mae staff yn cael eu hannog i ddefnyddio'r rhain mewn amgylchedd digidol, er enghraifft mewn llofnodion e-bost ac ar gefndiroedd Teams.

Gall staff clinig hefyd archebu tiwnigau Iaith Gwaith Alexander wedi'u brodio. I drefnu hyn, dylai staff gysylltu â'u cynrychiolydd Grŵp y Gymraeg gan ddefnyddio'r hyperddolen yn adran 2.

Byddwn yn parhau i chwilio am ddatrysiadau technolegol i rwystrau ieithyddol, ac yn eu cofleidio, pan fyddant ar gael o fewn ein Strategaeth Ddigidol gyfredol.

Yn Iechyd Cyhoeddus Cymru gall gweithwyr gyrchu nifer o wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae modd i staff wneud y canlynol:

- Cael eu contract cyflogaeth a/neu gontract gwasanaethau yn y Gymraeg.
- Cael unrhyw ohebiaeth ar bapur ynghylch eu cyflogaeth yn y Gymraeg.
- Cael unrhyw ddogfennau am eu hanghenion/gofynion hyfforddiant, amcanion perfformio a/neu eu cynllun gyrfa yn y Gymraeg.
- Cael unrhyw ffurflenni ynghlŷn â gwyliau blynyddol, absenoldebau a/neu weithio hyblyg yn y Gymraeg.
- Darllen polisiau staff yn y Gymraeg
- Ymsefydlu i'r Gymraeg yn Iechyd Cyhoeddus Cymru gan Dîm y Gymraeg.
- Ymgymryd â'r broses gwyno yn y Gymraeg.
- Ymgymryd â'r prosesau ffurfiol (cwynion cyflogaeth) o fewn y Polisi Parch a Datrys yn y Gymraeg
- Ymgymryd â'r broses ddisgyblu yn y Gymraeg.
- Ymgymryd â rhai sesiynau hyfforddiant yn y Gymraeg.
- Lle y bo modd, llenwi eu ffurflen Fy Nghyfraniad yn y Gymraeg
- Darllen yr holl erthyglau newyddion mewnol yn y Gymraeg
- Lawrlwytho meddalwedd gwirio sillafu Cymraeg e.e. Cysgliad.
- Cofrestru ar gyfer cwrs i wella eu Cymraeg. Mae hyn yn bosibl trwy garedigrwydd Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Ymgeisio am swyddi gwag Iechyd Cyhoeddus Cymru yn y Gymraeg.

9. Cyfieithu

Mae cyfieithu yn chwarae rhan ganolog yn ethos dwyieithog ein sefydliad, ac mae lansio Porth Ceisiadau Cyfieithu Cymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru ym mis Ionawr 2025 yn nodi cam mawr ymlaen o ran symleiddio a

gwella ein prosesau cyfieithu mewnol. Mae'r porth wedi cyflwyno amrywiaeth o fuddion ymarferol sy'n gwella effeithlonrwydd, eglurder a hygyrchedd i staff. Trwy roi system ddigidol hawdd ei defnyddio ar waith yn hytrach na thaenlenni a ffurflenni y mae'n rhaid eu llenwi â llaw, mae'r porth yn arbed amser gwerthfawr ac yn lleihau'r baich gweinyddol.

Mae ei lif gwaith strwythuredig yn sicrhau cysondeb a thryloywder, sy'n caniatáu i ddefnyddwyr olrhain cynnydd a rheoli terfynau amser yn fwy effeithiol. Mae'r nodwedd calendr integredig yn cefnogi trefnu amserlen realistig, wrth i'r nodwedd cadw data ceisiadau yn ddiofyn alluogi adrodd a chynllunio strategol gwell. Trwy gadw cofnod clir o gyfieithiadau blaenorol, nid oes dyblygu ac mae gwybodaeth yn cael ei chadw, sy'n helpu timau i weithio'n glyfrach ac yn fwy cydweithredol.

Yn ogystal â hyn, mae templedi dwyieithog ar gyfer prosesau mewnol bellach ar gael yn rhwydd, sy'n cefnogi staff i weithio'n ddwyieithog mewn modd didrafferth a hyderus. Mae'r datblygiad hwn nid yn unig yn cryfhau ein gallu gweithredol ond hefyd yn atgyfnerthu ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau dwyieithog o safon uchel ar draws y sefydliad.

Rydym yn annog ein staff i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg. Felly, gall staff ddefnyddio ein gwasanaethau cyfieithu mewnol i brawfddarllen darnau bach o waith y maent wedi'u cyfieithu eu hunain.

Fel sefydliad, byddwn yn sicrhau bod cyfieithu yn chwarae rhan hanfodol o ran cynyddu sgiliau ein staff drwy:

- Sicrhau bod ein prosesau cyfieithu yn glir ac ar gael yn rhwydd i staff, gan gynnwys amserlenni cyfieithu ac unrhyw wybodaeth y gall fod ei hangen ar y cyfieithydd
- Hyrwyddo ysgrifennu drafftiau dwyieithog o'r cychwyn cyntaf, gyda chymorth gan Dîm y Gymraeg yn ôl yr angen
- Defnyddio cyfieithu ar y pryd mewn rhai cyfarfodydd ond hefyd annog cyfarfodydd dwyieithog lle y gall dysgwyr Cymraeg glywed y Gymraeg yn cael ei siarad i gyfoethogi eu sgiliau .

10. Diwylliant y Gymraeg

10.1 Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg

Fel rhan o'i gamau ymsefydlu, bydd pob aelod newydd o staff yn cael gwybodaeth am y Gymraeg, ei diwylliant, a'i phwysigrwydd yn y sector iechyd yng Nghymru. I helpu pawb i ddeall rôl y Gymraeg wrth ddarparu gofal a gwasanaethau o safon, mae'n ofynnol i bob aelod o staff gwblhau cwrs Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg sydd ar gael ar y cofnod staff electronig.

Yn ogystal â hyn, cynigir cyfleoedd i staff fynd i sesiynau a gweithdai ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a gynhelir ar draws y sefydliad, sy'n helpu i fagu hyder a dealltwriaeth o sut i gefnogi ein gweithlu dwyieithog a'r cymunedau a wasanaethwn.

10.2 Hyrwyddo a digwyddiadau

Cynhaliwn ddigwyddiadau codi ymwybyddiaeth rheolaidd drwy gydol y flwyddyn i dynnu sylw at bwysigrwydd yr iaith, i gyfeirio at Hwb y Gymraeg ar y fewnrwyd fel ffynhonnell cymorth a gwybodaeth, i annog staff i ymuno â sianel Cymraeg Teams Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac i wahodd pobl i gysylltu â'r Tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol gydag unrhyw ymholiadau sydd ganddynt am y Gymraeg. Mae Ymlaen, sef Rhwydwaith y Gymraeg yn chwarae rhan allweddol mewn gweithgareddau codi ymwybyddiaeth.

Bydd y digwyddiadau hyn yn defnyddio dyddiadau sefydledig yn y calendr Cymraeg, megis:

- Dydd Miwsig Cymru (Chwefror)
 - Dydd Gŵyl Dewi (Mawrth)
 - Eisteddfod yr Urdd (Mai)
 - Yr Eisteddfod Genedlaethol (Gorffennaf/Awst)
 - Diwrnod Shwmae/Su'mae (Hydref)
- Ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg (Tachwedd / Rhagfyr) Cymraeg (Rhagfyr)

10.3 Ymlaen – Rhwydwaith Cymraeg i staff Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae Ymlaen, sef ein rhwydwaith Cymraeg i staff yn rhoi lle i staff rannu sut y gall y sefydliad eu cefnogi orau i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y gwaith. Mae'r rhwydwaith yn helpu i ysgogi mentrau sy'n hyrwyddo ein diwylliant dwyieithog, yn rhoi rhagor o lais a gwelededd i'r Gymraeg ar draws y sefydliad, ac yn creu cyfleoedd i gysylltu staff a ddaw o dimau, lleoliadau, a chyfarwyddiaethau gwahanol.

Mae Ymlaen hefyd yn cefnogi aelodau i osod esiampl o gyfarfodydd cyfrwng Cymraeg mewn ffyrdd sy'n gynhwysol ac yn fuddiol i bawb. Felly, mae'r rhwydwaith wrth wraidd ein defnydd o'r Gymraeg yn fewnol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru ac mae'n chwarae rhan hanfodol wrth hyrwyddo'r iaith a'r gweithgareddau ledled y sefydliad.

Fel sefydliad, byddwn yn dathlu'r Gymraeg a llwyddiannau drwy'r pethau canlynol:

- Cynnal Wythnos y Gymraeg bob blwyddyn tua'r un adeg â Dydd Gŵyl Dewi
- Cymryd rhan mewn o leiaf dri digwyddiad cenedlaethol a lleol sy'n dathlu'r Gymraeg a defnyddio'r Gymraeg megis yr ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg, Diwrnod Shwmae ac ati
- Dathlu llwyddiannau unigolion a thimau yn y sefydliad sydd bellach yn defnyddio rhagor o'u Cymraeg
- Dathlu ein dysgwyr Cymraeg drwy gynnal digwyddiad blynyddol yn benodol i'r diben hwnnw

10.4 Cwrteisi ieithyddol

Mae nifer o sefydliadau yng Nghymru yn ceisio galluogi'r holl staff i ddangos "cwrteisi ieithyddol", sef lefel sylfaenol o ddealltwriaeth er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ynganu enwau Cymraeg ac enwau lleoedd yn gywir, rhoi cyfarchion syml, a defnyddio Cymraeg achlysurol. Byddwn yn annog yr holl staff i gofleidio'r cysyniad hwn, a bydd adnoddau i lywio a galluogi hyn ar gael ar ein [mewnrwyd Hwb](#). Mae'n gam gweithredu i bob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth a nodir yn [Mwy na Geiriau](#) sef y cynllun gweithredu i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Y nod yw y bydd yr holl staff wedi cyflawni'r lefel sylfaenol hon o sgiliau Cymraeg erbyn 2027. Rydym yn parhau i wneud cynnydd tuag at y targed hwn, ac mae'r sesiynau Croeso uchod yn hwyluso hynny.

11. Cyfathrebu ac Ymwybyddiaeth Fewnol

Mae'r negeseuon yn y polisi hwn yn cael eu rhannu'n glir â'r staff i ddangos y croesewir defnyddio'r Gymraeg a bod hyn yn cael ei annog ar bob lefel.

Atgoffir staff yn rheolaidd eu bod yn cael cefnogaeth lawn i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu swyddi, a bod y sefydliad yn gweld gwerth yr iaith fel rhan bwysig o'i ddiwylliant a'i waith o ddydd i ddydd.

Er mwyn helpu i gyflawni hyn, mae'r sefydliad yn defnyddio ystod o ddulliau cyfathrebu mewnol. Mae'r rhain yn cynnwys diweddariadau ar fewnrwyd y staff, e-byst mewnol, ac erthyglau dwyieithog mewn bwletin staff fel gofyniad safonol. Mae'r bwletin staff hefyd wedi lansio

ei adran gair Cymraeg yr wythnos yn ei gylchlythyr i hyrwyddo'r iaith ymhellach.

Mae gwybodaeth am ddefnyddio'r Gymraeg hefyd wedi'i harddangos yn glir mewn swyddfeydd ac wedi'i chynnwys mewn llofnodion e-bost staff, gan atgyfnerthu'r neges ledled y gweithle.

Mae cydweithwyr yn cael y cyfle i ddysgu ymadroddion a chyfarchion cwrteisi sylfaenol yn y Gymraeg. Gallant wedyn eu rhoi ar waith yn eu cyfathrebu a'u cyfarfodydd bob dydd trwy ein cyrsiau Croeso a Blasu.

Defnyddir y dulliau cyfathrebu hyn i ledaenu ymrwymiad y sefydliad ac i hysbysu staff am y gefnogaeth ymarferol a'r adnoddau sydd ar gael i'w helpu i ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy aml. Fe'u defnyddir hefyd i annog a chymhell staff i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd gwahanol, boed hynny yn siarad â chydweithwyr, yn ysgrifennu negeseuon, neu'n cymryd rhan mewn cyfarfodydd.

Fel sefydliad, rydym yn hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg yn fewnol i'n staff drwy wneud y canlynol:

- Cyhoeddi cylchlythyr Cymraeg chwarterol sy'n hyrwyddo cyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg, digwyddiadau sydd ar y gweill ac adnoddau defnyddiol i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy aml yn eu swyddi
- Sicrhau bod tudalennau hafan ein mewnrwyd a thudalennau eraill sy'n gysylltiedig â'r staff ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg a bod ein tudalennau Hwb y Gymraeg yn parhau i fod mewn lleoliad hygyrch.
- Sicrhau y caiff pob stori newyddion a'r cylchlythyron dwyieithog ac ati eu cyhoeddi ar ffurf y testun Cymraeg yn gyntaf
- Hyrwyddo negeseuon cadarnhaol sy'n ymwneud â'r Gymraeg ac annog ein gweithlu i deimlo'n falch o'r iaith ac o ddiwylliant Cymru.

12. Monitro ac adolygu

Bydd dangosyddion allweddol y polisi hwn yn cynnwys:

- Hunan-adrodd defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith
- Canrannau'r staff sydd â sgiliau o bob lefel yn y Gymraeg, fel y'u cofnodir ar y Cofnod Staff Electronig a'r nifer sy'n newid eu lefelau ar ôl mynd i sesiynau a chysiau.
- Nifer y staff sy'n mynd i ddigwyddiadau Cymraeg ac Ymlaen

- Nifer y staff sy'n dechrau, ac yn cwblhau, cyrsiau Cymraeg ar-lein (Cymraeg Gwaith, Dysgu Cymraeg) ac yn bersonol (gyda darparwyr dysgu lleol)
- Cydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg sy'n ymwneud â defnyddio'r iaith yn fewnol (gweler Atodiad 1), fel yr adroddir yn Adroddiad Blyneddol Safonau'r Gymraeg, a gyhoeddir ym mis Medi bob blwyddyn. Fe'u pennir yn swyddogol yng nghynlluniau gweithredu'r Gymraeg gan y Cyfarwyddiaethau a'u hadrodd yn Adroddiad Blyneddol Safonau'r Gymraeg, a gyhoeddir ym mis Medi bob blwyddyn.

13. Adborth, cymorth a chodi ymwybyddiaeth

Bydd y polisi yn cael ei adolygu bob tair blynedd neu pryd bynnag y bydd newid perthnasol yn y ddeddfwriaeth.

Rydym yn ceisio gwella'n harferion cyflogaeth yn barhaus ac yn croesawu unrhyw adborth sydd gennych mewn perthynas â'r polisi hwn. Gellir rhoi adborth drwy e-bostio.

Sicrheir bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r polisi hwn wrth ddechrau gweithio i Iechyd Cyhoeddus Cymru. Gellir gweld copïau hefyd ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru neu eu cael drwy'r Tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol.

Os bydd angen i unigolion ddefnyddio'r polisi hwn, gellir ceisio cyngor ac arweiniad gan Cymraeg.ICC@wales.nhs.uk a thrwy ymgysylltu â chydweithwyr yn yr Undebau Llafur.

14. Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, y Gymraeg ac Iechyd ac nid yw wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol posibl (canlyniadau anfwriadol) na bylchau.

Bydd y polisi hwn ar gael yn Gymraeg ar ein tudalennau Polisi ar y we.

15. Cynllun Gweithredu

Targed	Camau gweithredu	Y bobl sy'n gyfrifol	Dyddiad targed
Byddwn yn cefnogi ein harweinwyr i ddefnyddio eu Cymraeg i agor a chloi cyfarfodydd, anfon negeseuon a thraddodi cyflwyniadau yn y Gymraeg gymaint â phosibl a darparu hyfforddiant i'n harweinwyr a'n rheolwyr ar sut i ddefnyddio eu Cymraeg yn effeithiol.	Darparu hyfforddiant / canllawiau i arweinwyr fel bod yr adnoddau a'r wybodaeth ar gael iddynt	Tîm y Gymraeg Aelodau Grŵp y Gymraeg i'w rannu	1 Ebrill 2026
Byddwn yn cefnogi ein harweinwyr i gynnwys y Gymraeg fel eitem barhaus ar agendâu ar gyfer cyfarfodydd, er enghraifft cyfarfodydd uwch reolwyr neu gyfarfodydd y bwrdd fel bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn llawn ym mhob trafodaeth.	Tîm y Gymraeg i sicrhau bod aelodau Grŵp y Gymraeg yn rhoi hyn ar waith	Tîm y Gymraeg Grŵp y Gymraeg Y Bwrdd a'r Uned Fusnes	Rhagfyr 2026
Sicrhau bod ein Hyrwyddwyr y Gymraeg, a	Tîm y Gymraeg i rannu canllawiau ar beth yw	Grŵp y Gymraeg	Awst 2026

chynrychiolwyr ein Grŵp y Gymraeg, yn defnyddio eu safle o fewn y sefydliad i feithrin agwedd gadarnhaol tuag at y Gymraeg ymysg eu timau a'u cyfarwyddiaethau	hyrwyddwr gydag aelodau'r grŵp		
Gofyn i'n staff pa gyfleoedd sydd ganddynt i ddefnyddio eu Cymraeg yn y gwaith a sut y gallwn ni wella'r cyfleoedd hyn iddynt	Creu holiadur pwrpasol i staff Iechyd Cyhoeddus Cymru neu holiadur a oes modd ychwanegu cwestiynau at holiaduron sydd wedi'u creu eisoes	Tîm y Gymraeg Arweinydd llesiant	Hydref 2026
Annog siaradwyr Cymraeg i wella eu sgiliau ysgrifennu yn y Gymraeg drwy ysgrifennu drafftiau yn y Gymraeg a defnyddio'r cymorth sydd ar gael drwy Dîm y Gymraeg i roi adborth iddynt	Tîm y Gymraeg i rannu canllawiau	Cydlynnydd Cyfieithu	Haf 2026
Sicrhau bod pob dysgwr a siaradwr Cymraeg yn gallu cyrchu bathodynau, laniardiau, gwisgoedd a	Symud ein gwaith hyrwyddo adnoddau staff Cymraeg Gwaith (a rhai eraill) presennol i le mwy amlwg ar	Tîm y Gymraeg	Rhagfyr 2025

<p>chefndir Teams Cymraeg Gwaith fel bod pobl eraill yn gweld eu sgiliau Cymraeg. Bydd hyn yn rhoi cyfleoedd i ddefnyddio ac ymarfer y Gymraeg</p>	<p>safle mewnrwyd y Gymraeg i sicrhau eu bod yn fwy hygyrch ac yn haws eu gweld</p>		
<p>Parhau i hyrwyddo ein cynlluniau cyfeillio a mentora yn ogystal â chyfleoedd i ddod at ein gilydd i ddefnyddio'r Gymraeg</p>	<p>Paratoi straeon am brofiadau'r rhai sydd eisoes wedi elwa ar y cynllun</p>	<p>Tîm y Gymraeg</p> <p>Cyfeillion sydd eisoes wedi cymryd rhan yn y cynllun</p>	<p>Gwaith hyrwyddo bob chwarter</p>
<p>Sicrhau bod ein prosesau cyfieithu yn glir ac ar gael yn rhwydd i staff, gan gynnwys amserlenni cyfieithu ac unrhyw wybodaeth y gall fod ei hangen ar y cyfieithydd</p>	<p>Parhau i sicrhau bod tudalen gyfieithu'r fewnrwyd yn gyfredol</p>	<p>Cydlynnydd Cyfieithu</p>	<p>Parhaus</p>
<p>Hyrwyddo ysgrifennu drafftiau dwyieithog o'r cychwyn cyntaf, gyda chymorth gan Dîm y Gymraeg yn ôl yr angen</p>	<p>Canllawiau i'w paratoi a'u rhannu â chydweithwyr y tîm Cyfathrebu yn gyntaf ac yna'r grŵp staff ehangach</p>	<p>Tîm y Gymraeg / Cydlynnydd Cyfieithu</p>	<p>1 Ebrill 2026</p>

Defnyddio cyfieithu ar y pryd mewn rhai cyfarfodydd, ond hefyd annog a chynnal cyfarfodydd dwyieithog lle y gall dysgwyr y Gymraeg glywed y Gymraeg yn cael ei siarad i wella eu sgiliau .	Trefnu cyfieithu ar y pryd yn ôl yr angen ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau	Cyd-gadeiryddion Ymlaen Cydlynnydd Cyfieithu	Parhaus
Cynnal Wythnos y Gymraeg bob blwyddyn tua'r un adeg â Dydd Gŵyl Dewi	Wythnos yn cael ei chynnal tua'r un adeg â Dydd Gŵyl Dewi Cyfuniad o straeon newyddion a digwyddiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb	Cyd-gadeiryddion Ymlaen Staff cymorth y rhwydweithiau staff Tîm y Gymraeg	1 Mawrth yn flynyddol
Cymryd rhan mewn o leiaf dri digwyddiad cenedlaethol a lleol sy'n dathlu'r Gymraeg a defnyddio'r Gymraeg megis yr ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg, Diwrnod Shwmae ac ati	Trefnu digwyddiadau a chydweithio â phartneriaid GIG Cymru i gynnal digwyddiadau	Cyd-gadeiryddion Ymlaen Timau'r Gymraeg ar draws GIG Cymru	Parhaus
Dathlu llwyddiannau unigolion a thimau yn y sefydliad sydd bellach yn defnyddio	Chwilio am straeon dathlu a grybwyllir mewn templedi adrodd blynyddol Dathlu'n fewnol trwy straeon newyddion	Tîm y Gymraeg Aelodau Grŵp y Gymraeg	Parhaus

rhagor o’u Cymraeg	Dathlu’n allanol trwy rannu ar y cyfryngau cymdeithasol ac yng nghylchlythyr Mwy na Geiriau		
Dathlu ein dysgwyr Cymraeg drwy gynnal digwyddiad blynyddol yn benodol i’r diben hwnnw	Sicrhau ein bod yn cadw cofnod o’n holl ddysgwyr Cymraeg Codi ymwybyddiaeth dysgwyr Cymraeg o’r digwyddiad dathlu Trefnu digwyddiad blynyddol	Cyd- gadeiryddion Ymlaen Tîm y Gymraeg	Bob haf / hydref
Cyhoeddi cylchlythyr Cymraeg chwarterol sy’n hyrwyddo cyfleoedd i ddysgu’r Gymraeg, digwyddiadau sydd ar y gweill ac adnoddau defnyddiol i staff ddefnyddio’r Gymraeg yn fwy aml yn eu swyddi	Cylchlythyr chwarterol yn cael ei goladu a’i ddrafftio gan Dîm y Gymraeg Casglu straeon a gwybodaeth yn fewnol ac yn allanol	Tîm y Gymraeg Aelodau Grŵp y Gymraeg i roi straeon i’r tîm	Bob chwarter

<p>Sicrhau bod tudalennau hafan ein mewnrwyd a thudalennau eraill sy'n gysylltiedig â'r staff ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg a bod ein tudalennau Hwb y Gymraeg yn parhau i fod mewn lleoliad hygyrch.</p>	<p>Y Tîm Cyfathrebu Mewnol a Thîm y Gymraeg i adolygu'r tudalennau'n rheolaidd</p>	<p>Y Tîm Cyfathrebu Mewnol Tîm y Gymraeg</p>	<p>Parhaus</p>
<p>Sicrhau y caiff pob stori newyddion a'r cylchlythyron dwyieithog ac ati eu cyhoeddi ar ffurf y testun Cymraeg yn gyntaf</p>	<p>Y tîm cyfathrebu i sicrhau bod hyn yn digwydd i bob stori newyddion</p>	<p>Y Tîm Cyfathrebu Mewnol</p>	<p>Parhaus</p>
<p>Hyrwyddo negeseuon cadarnhaol sy'n ymwneud â'r Gymraeg ac annog ein gweithlu i deimlo'n falch o'r iaith ac o ddiwylliant Cymru.</p>	<p>Rhennir negeseuon rheolaidd sy'n ymwneud â'r Gymraeg</p>	<p>Tîm y Gymraeg Aelodau Grŵp y Gymraeg Arweinwyr y sefydliad Y Tîm Cyfathrebu Yr holl staff</p>	<p>Unwaith y mis</p>

Atodiad 1: Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i'r defnydd mewnol o'r Gymraeg yn Iechyd Cyhoeddus Cymru

Safonau Gweithredu

79	Rhaid i chi ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r bwriad o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a rhaid i chi gyhoeddi'r polisi hwnnw ar eich mewnwyd.
80	Pan fyddwch yn cynnig swydd newydd i unigolyn, rhaid i chi ofyn i'r unigolyn hwnnw a yw'n dymuno i'r contract cyflogaeth neu gontract am wasanaethau gael ei ddarparu yn Gymraeg; ac os yw'r unigolyn yn dymuno hynny, rhaid i chi ddarparu'r contract yn Gymraeg.
81	Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai ("A") a fyddai'n dymuno cael unrhyw un o'r canlynol yn Gymraeg, ac os yw A yn dymuno cael un neu ragor yn Gymraeg rhaid ichi ei ddarparu (neu nhw) yn Gymraeg - (a) unrhyw ohebiaeth bapur sy'n ymwneud â chyflogaeth A, ac sy'n cael ei chyfeirio at A; (b) unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu unrhyw anghenion neu ofynion hyfforddi A; (c) unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu amcanion perfformiad A; (ch) unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu neu'n cofnodi cynllun gyrfa A; (d) unrhyw ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi gwyliau blynyddol; (dd) unrhyw ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi absenoldebau o'r gwaith; (e) unrhyw ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi oriau gwaith hyblyg.
82	Os byddwch yn cyhoeddi unrhyw un o'r canlynol, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg - (a) polisi ynghylch ymddygiad yn y gweithle; (b) polisi ynghylch iechyd a llesiant yn y gweithle; (c) polisi ynghylch cyflogau neu fuddion yn y gweithle; (ch) polisi ynghylch rheoli perfformiad; (d) polisi ynghylch absenoldeb o'r gwaith; (dd) polisi ynghylch amodau gwaith; (e) polisi ynghylch patrymau gwaith.

83	<p>Rhaid i chi caniatáu a datgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy'n nodi eich gweithdrefnau ar gyfer gwneud cwynion y gall pob aelod o staff –</p> <p>(a) gwneud cwynion i chi yn Gymraeg, ac</p> <p>(b) ymateb i unrhyw gŵyn a wnaed amdano ef neu hi yn Gymraeg; a rhaid i chi hefyd roi gwybod i bob aelod o staff am yr hawl honno.</p>
84	<p>Os byddwch yn cael cwyn gan aelod o staff neu'n cael cwyn ynghylch aelod o staff, a bod angen cyfarfod â'r aelod hwnnw o staff, rhaid i chi –</p> <p>(a) cynnig cynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, ddarparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw; a</p> <p>(b) os yw'r aelod o staff yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, cynnal y cyfarfod yn Gymraeg, neu os oes angen, gyda chymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu ar y pryd olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg.</p>
85	<p>Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff ("A") beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chŵyn a wneir gan A, neu mewn perthynas â chŵyn a wneir am A, rhaid i chi wneud hynny yn Gymraeg os yw A –</p> <p>(a) wedi gwneud y gŵyn yn Gymraeg,</p> <p>(b) wedi ymateb yn Gymraeg i gŵyn am amdano ef,</p> <p>(c) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r gŵyn yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu</p> <p>(ch) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r gŵyn.</p>
86	<p>Rhaid i chi -</p> <p>(a) caniatáu a datgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy'n nodi eich trefniadau ar gyfer disgyblu staff y caiff unrhyw aelod o staff ymateb yn Gymraeg i unrhyw honiadau a wneir yn ei erbyn, a</p> <p>(b) os byddwch yn dechrau gweithdrefn ddisgyblu mewn perthynas ag aelod o staff, rhowch wybod i'r aelod hwnnw o staff am yr hawl honno.</p>
87	<p>Os byddwch yn trefnu cyfarfod ag aelod o staff ynghylch achos disgyblu mewn perthynas â'i ymddygiad, rhaid i chi –</p> <p>(a) cynnig cynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, ddarparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw; ac</p>

	(b) os yw'r aelod o staff yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, cynnal y cyfarfod yn Gymraeg, neu os oes angen gyda chymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg.
88	<p>Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff ("A") beth yw'ch penderfyniad yn dilyn proses ddisgyblu, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw A –</p> <p>(a) wedi ymateb i honiadau yn ei erbyn yn Gymraeg,</p> <p>(b) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu</p> <p>(c) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu.</p>
89	Rhaid i chi ddarparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg y Gymraeg i'ch staff, a darparu rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd (pan fo rhyngwyneb ar gael).
90	<p>Rhaid i chi sicrhau -</p> <p>(a) bod testun pob tudalen ar eich mewnwyd ar gael yn Gymraeg,</p> <p>(b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich mewnwyd yn gweithredu'n llawn, ac</p> <p>(c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich mewnwyd.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â Safon 90 mewn perthynas â thudalennau ar eich mewnwyd sy'n ymwneud â'r materion o fewn y safonau gweithredu canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ defnyddio'r Gymraeg o fewn eich Gweinyddiaeth fewnol; ○ cwynion a wneir gan staff; ○ disgyblu staff; meithrin sgiliau drwy gynllunio a hyfforddi'r gweithlu; a ○ recriwtio a phenodi.
91	<p>Rhaid i chi sicrhau -</p> <p>(a) bod testun tudalen hafan eich mewnwyd ar gael yn Gymraeg,</p> <p>(b) bod unrhyw destun Cymraeg ar hafan eich mewnwyd (neu, pan fo'n berthnasol, fod hafan Gymraeg eich mewnwyd) yn gweithredu'n llawn, ac</p> <p>(c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â thestun y dudalen honno.</p>

93	Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich mewnwyd sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a rhaid darparu dolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.
94	Rhaid i chi neilltuo a chynnal tudalen (neu dudalennau) ar eich mewnwyd sy'n darparu gwasanaethau a deunydd cymorth i hybu'r Gymraeg ac i gynorthwyo eich staff i ddefnyddio'r Gymraeg.
95	Rhaid i chi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar eich tudalennau mewnwyd yn Gymraeg. Rhaid cydymffurfio â Safon 95 mewn perthynas â'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> ○ unrhyw dudalen neu hafan ar eich mewnwyd sydd ar gael yn Gymraeg yn unol â Safonau 90 a/neu 91; ○ unrhyw dudalen rydych yn ei dynodi a'i chynnal ar eich mewnwyd yn unol â Safon 94.
96	Rhaid ichi asesu sgiliau Cymraeg eich cyflogeion.
97	Rhaid i chi ddarparu cyfleoedd i gael hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd a ganlyn, os ydych yn darparu hyfforddiant o'r fath yn Saesneg – <ul style="list-style-type: none"> (a) recriwtio a chyfweld; (b) rheoli perfformiad (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu; (ch) ymsefydlu (d) delio â'r cyhoedd; ac (dd) iechyd a diogelwch.
98	Rhaid i chi ddarparu cyfleoedd i gael hyfforddiant yn Gymraeg ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn— <ul style="list-style-type: none"> (a) cyfarfodydd; (b) cyfweiliadau; a (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu.
99	Rhaid i chi ddarparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith – <ul style="list-style-type: none"> (a) i'ch cyflogeion dderbyn gwersi Cymraeg sylfaenol, ac (b) i gyflogeion sy'n rheoli pobl eraill gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr.

100	Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd i'ch cyflogeion sydd wedi cwblhau hyfforddiant Cymraeg sylfaenol gael hyfforddiant pellach, yn rhad ac am ddim, er mwyn datblygu eu sgiliau yn yr iaith.
101	Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd i'ch cyflogeion gael hyfforddiant, yn rhad ac am ddim, i wella eu sgiliau Cymraeg.
102	Rhaid ichi ddarparu cyrsiau hyfforddi er mwyn i'ch cyflogeion ddatblygu – (a) ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru); (b) dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg; a (c) dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
103	Pan fyddwch yn darparu gwybodaeth i gyflogeion newydd (er enghraifft, fel rhan o broses ymsefydlu), rhaid ichi ddarparu gwybodaeth er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg.
104	Rhaid i chi ddarparu - (a) geiriad neu logo ar gyfer llofnodion e-bost eich staff fydd yn eu galluogi i ddynodi a ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n dysgu'r iaith, a (b) geiriad ar gyfer eich cyflogeion fydd yn eu galluogi i gynnwys fersiwn Gymraeg o'u manylion cyswllt mewn negeseuon e-byst, ac i ddarparu fersiwn Gymraeg o unrhyw neges sy'n hysbysu pobl eraill nad ydynt ar gael i ateb negeseuon e-bost.
105	Rhaid i chi - (a) rhoi ar gael i aelodau'r staff sy'n gallu siarad Cymraeg fathodyn iddynt ei wisgo sy'n cyfleu hynny; a (b) hybu gwisgo'r bathodyn ymhlith aelodau'r staff.
111	Pan fyddwch yn - (a) gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro); neu'n (b) cyhoeddi neu arddangos hysbysiad yn eich gweithle; rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd neu'r hysbysiad gael ei arddangos yn Gymraeg (boed ar yr un arwydd neu hysbysiad â'r testun Saesneg cyfatebol neu ar arwydd neu hysbysiad ar wahân), ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, chi rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.

112	<p>Pan fyddwch yn -</p> <p>(a) gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro); neu</p> <p>(b) yn cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad; yn eich gweithle; sy'n cyfleu'r un wybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.</p>
113	<p>Rhaid i chi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion a hysbysiadau a arddangosir yn eich gweithle yn gywir o ran ystyr a mynegiant.</p>
114	<p>Pan fyddwch yn gwneud cyhoeddiadau dros offer sain yn eich gweithle, rhaid i'r cyhoeddiad hwnnw gael ei wneud yn Gymraeg, ac os gwneir y cyhoeddiad yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r cyhoeddiad gael ei wneud yn Gymraeg yn gyntaf.</p>